

EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae CBCDC yn ofod i bawb – mae cynwysoldeb yn werth craidd ac rydym yn parchu ein gilydd. Mae hyn yn hollbwysig i'n rhagoriaeth.

Dyma'r WYTH FFORDD yr ydym yn gweithio er mwyn sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn ein cynllun sydd wedi'i gyhoeddi.

1 DIWYLLIANT A LLYWODRAETHU

Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch yng nghymuned y Coleg a gwreiddio cydraddoldeb yng ngwaith gwneud penderfyniadau y Coleg.

2 CYDWEITHIO, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn digwydd gyda staff, myfyrwyr, cynulleidfaoedd a grwpiau o bobl leol o'r sector gwirfoddol sydd â nodweddion gwarchoddedig, drwy gydweithio, cyfathrebu ac ymgynghori.

3 AMRYWIAETH CORFF Y MYFYRWYR A PHROFIAD Y MYFYRWYR

Denu, dethol a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi pob myfyriwr i ymgysylltu â gwreiddio ei lawn botensial.

4 DENU, CADW A DATBLYGU STAFF

Denu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio i'r Coleg a galluogi iddynt gael mynediad at ddatblygiad a dilyniant gyrfa agored a thryloyw.

5 HYGRCHEDD

Sicrhau bod adeiladau a seilwaith y Coleg yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol.

6 CYNHWYSIANT MEWN ARFER PROFFESIYNOL

Datblygu dull cynhwysol ar gyfer ymchwil, lle caiff cynnwys pobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig ei hyrwyddo ac y caiff rhwystrau i gyfranogiad pobl o grwpiau amrywiol eu dileu.

7 CYFLOG CYFARTAL

Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal ar waith.

8 CASGLU DATA A MONITRO

Gwella'r gwaith o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol.